Senedd Cymru
Y Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol
—
Welsh Parliament
External Affairs and Additional Legislation Committee

Eluned Morgan AS

Gweinidog y Gymraeg a Chysylltiadau Rhyngwladol

5 Mehefin 2020

Annwyl Eluned,

Confensiwn Cyngor Ewrop ar Gydgynhyrchu Sinematig

Yn ei gyfarfod ar 4 Mai 2020, bu'r Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol yn ystyried Confensiwn Cyngor Ewrop ar Gydgynhyrchu Sinematig.

Mae'r confensiwn hwn o ddiddordeb arbennig i waith y Pwyllgor oherwydd bod diwydiannau creadigol Cymru wedi'u henwi yn un o'r tair canolfan ragoriaeth yn Strategaeth Ryngwladol Llywodraeth Cymru.

O'r herwydd, byddwn yn ddiolchgar am eich ymateb i'r cwestiynau a ganlyn:

1. Beth yw barn Llywodraeth Cymru am effaith y ffaith bod y DU wedi llofnodi Confensiwn 2017 ar ddiwydiannau sinematograffig Cymru?
2. I ba raddau y mae darpariaethau'r Confensiwn yn cyd-fynd â'r uchelgais y cyfeirir ati yn strategaeth ryngwladol Llywodraeth Cymru?
3. A oedd Llywodraeth Cymru wedi cymryd rhan neu wedi cael ei hysbysu ymlaen llaw fod y DU yn bwriadu llofnodi'r Confensiwn?
4. Pa lefel o ymgysylltu, os o gwbl, sydd gan Lywodraeth Cymru â Sefydliad Ffilm Prydain, a fu, yn ôl Memorandwm Esboniadol Llywodraeth y DU, yn gyfrifol am negodi'r Confensiwn ar ran y DU gyfan?

Yn gywir



David Rees AS
Cadeirydd y Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg.
We welcome correspondence in Welsh or English.

Senedd Cymru
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddMADY@senedd.cymru
0300 200 6565

Welsh Parliament
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddEAAL@senedd.wales
0300 200 6565